

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar  
Ddydd Mercher 8 Mawrth 2017

yn  
Glasdir, Llanrwst  
am 10.20am

### Aelodau Fforwm Mynediad Lleol

Gwen Butler (Is-gadeirydd)  
Heather Fitzgerald  
Chris Marshall  
Joanne Hughes  
Y Cyng Martyn Holland  
Hilary Davies  
Kevin Slattery  
Max Grant  
John Buckley  
Kay Culhane  
Iona Pierce  
Toni Proffitt  
Hugh Crosswood  
Tom Woodall

### Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad) Ysgrifennydd  
Fforwm Mynediad Lleol  
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)  
Howard Sutcliffe (Swyddog Cefn Gwlad)  
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)  
Ben Wilcox-Jones (Swyddog Teithio Cynaliadwy)

### Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)  
Caroline Turner (Swyddog Map Swyddogol)  
Victoria Currie (Cydlynydd Ardal De)  
Paul Smith (Swyddog Priffyrdd)

### Goruchwylwyr

Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru)  
Mr Culhane  
Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-  
Tim Faire, Nicholas Lloyd, Dan Hurst, Jim Gaffney

### **1. Ymddiheuriadau a Chofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Rhestrodd HA yr ymddiheuriadau a gafwyd. Gofynnodd Gwen Butler (GB) a oedd yn gweithredu fel Is-Gadeirydd i bawb a oedd yn bresennol roi cyflwyniad byr a throsolwg o'u diddordebau a oedd yn berthnasol i'r Fforwm gan fod rhai aelodau nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

Gwiriwyd cofnodion Cyfarfod 1 o ran cywirdeb a chytunodd y Fforwm arnynt, HA i ofyn am gyflwyniadau aelodau a oedd ar goll a'u dosbarthu i'r Fforwm. Nodwyd diwygiadau i gofnodion Cyfarfod 2 gan HA. Yna cytunodd y Fforwm fod y cofnodion yn gofnod cywir.

<b>CG1</b>	HA i ofyn am gyflwyniadau aelodau a oedd ar goll a'u dosbarthu
------------	--

### ***Cyfarfod 1, Eitem 2: Cais am fanylion cwynion a gafwyd gan CBSC a CSDD***

Eglurodd Adrian Walls (AW) fod CSDD yn defnyddio system o'r enw Rheoli Cyswllt Cwsmer (CRM) ac yn annog pobl i roi gwybod am faterion drwy'r system hon. Mae pobl

yn rhoi gwybod am faterion hawliau tramwy drwy gyfeiriad e-bost hawliau tramwy uniongyrchol a thrwy anfon e-bost a ffonio'r arolygydd llwybr troed er mwyn ceisio cyflymu materion. Dywedodd AW fod hyn wedi gweithio o'r blaen, fodd bynnag, mae'n mynnu bod pob mater a chwyn yn cael eu cofnodi drwy CRM bellach fel bod dull o allu i olrhain.

Gwelodd AW nifer sylweddol o ddata yn ymwneud â hawliau tramwy gyda 240 taflen A4 o gwynion (3-4 fesul taflen) ar gyfer y 3 blynedd diwethaf. Wrth ddadansoddi'r flwyddyn ddiwethaf, gwelodd AW 256 o gwynion, roedd 165 wedi'u hadrodd gan bobl sy'n byw yn y sir, 10 gan bobl sy'n byw y tu allan i'r sir a oedd gyda chyfrif yn y CRM ac roedd tua 15-20 yn ddiennw. Rhoddodd AW grynodeb fod 1 o bob 6 cwyn drwy'r system CRM wedi dod o'r tu allan i'r sir. Ychwanegodd AW fod y tîm hawliau tramwy wedi dechrau defnyddio dyfeisiau llaw i fonitro'r rhwydwaith ac mae tua 60 o gwynion wedi eu hychwanegu atynt hyd yma drwy'r dull hwn gyda rhaniad 50:50 o adroddiadau yn dod o'r tu mewn/tu allan i'r sir.

Gofynnodd Kevin Slattery (KS) a oedd unrhyw rai o'r adroddiadau yn gwynion ailadrodd. Atebodd AW fod gan 2 neu 3 mater adroddiadau ailadrodd a chyfeiriodd at lwybr ceffylau wedi'i rwystro a oedd wedi'i adrodd gan 2 neu 3 o bobl fel un o'r enghreifftiau hyn; fodd bynnag adroddiadau sengl oedd y rhan fwyaf.

Cytunodd Siân Williams (SW) gydag AW. Eglurodd SW fod y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid ym Mochdre yn cymryd y cwynion a'r materion ac yn eu cofnodi ar system o'r enw Synollogy. Dywedodd SW nad oedd pob mater llwybr troed yn cael ei gofnodi drwy'r system ond roedd y data ar gael ganddi yn ôl i 2012. Aeth SW ymlaen i ddweud bod 1063 o gwynion yn ymwneud â hawliau tramwy yn ardal Dwyrain Conwy wedi'u hadrodd ers 2012, 264 ohonynt yn faterion gorfodi a 799 yn faterion cynnal a chadw. Nid oedd SW yn gallu canfod a oedd y materion wedi'u hadrodd o'r tu mewn neu'r tu allan i'r sir.

Gofynnodd Max Grant (MG) faint o'r materion oedd yn rhai parhaus. Nid oedd SW yn siŵr ac ni edrychodd AW i mewn i faterion wedi'u datrys, dim ond nifer a lleoliad y rhai a oedd yn adrodd.

<b>CG</b> <b>2</b>	HA i ddsbarthu dolenni i dudalennau Fforwm Mynediad Lleol a Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar wefannau CBSC a CSDd.	<b>Wedi'i gwblhau</b>
-----------------------	--	-----------------------

### **Cyfarfod 2, Eitem 3: Is-Grwpiau**

Gofynnodd MG a fyddai'n amser priodol i sefydlu Is-grŵp Glastir gan fod y cyllid wedi'i gymeradwyo am 12 mis arall.

Roedd AW wedi cysylltu gyda Jane Tibbott yn Llywodraeth Cymru, cyswllt Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer Glastir Uwch. Mae ansicrwydd o hyd o ran beth fydd LlC yn caniatáu i Fforymau Mynediad Lleol ei ychwanegu ac nid yw LlC yn gweld budd o gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu pellach. Dywedodd GB y byddai'n amlygu'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion ym mis Ebrill.

<b>CG</b> <b>3</b>	HA i gysylltu gyda Jane Tibbott i egluro'r sefyllfa bresennol a sefydlu a yw LlC yn dal i gymryd awgrymiadau.	<b>Wedi'i gwblhau</b>
-----------------------	---	-----------------------

### **Cyfarfod 2, Eitem 3: Donate a Gate**

Mae KS wedi ceisio cysylltu â'r cynllun Donate a Gate ac mae'n aros am ymateb. Bydd KS yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### **Cyfarfod 2, Eitem 3: Mynediad i Bawb**

Gofynnodd MG i AW a oedd modd i fanylion am newid camfeydd i gathiau ddod i gyfarfod yn y dyfodol. Cadarnhaodd AW a dywedodd fod CSDd yn llwyddo ar hyd Afon Clwyd ar hyn o bryd. Eglurodd AW fod rhywfaint o wrthwynebiad oddi wrth dirfeddianwyr, fodd bynnag cost yw'r mater mwyaf. Mae camfa yn costio tua £40 a gall y tinfeddiannwr/rheolwr ei osod, cost y gât a'i osod yw tua £300. Mae CSDd wedi gallu darparu llawer o ddiweddariadau drwy gyllid Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ychwanegodd y Cyng Martyn Holland (MH) fod hwn yn bwnc llosg ac awgrymodd ei fod yn eitem ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol oherwydd erbyn hynny bydd yr awdurdodau wedi cael eu cyllidebau ar gyfer flwyddyn sydd i ddod a gall fod yn gyfle i weld lle gall grwpiau gwirfoddol fod yn rhan.

<b>CG 4</b>	Eitem ar y Rhaglen yn y dyfodol: Mynediad haws yng nghefn gwlad (disodli camfeydd gyda gathiau neu fylchau)
-------------	---

## **2. Cyflwyniadau Teithio Llesol a sesiwn holi ac ateb gyda Paul Smith (CBSC) a Ben Wilcox-Jones (CSDd)**

Rhoddodd Paul Smith (PS) a Ben Wilcox-Jones (BWJ) gyflwyniad ar y cyd yn cwmpasu Deddf Teithio Llesol Cymru, gwaith Conwy a Sir Ddinbych o amgylch y Ddeddf a beth all aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol a phreswylwyr y siroedd ei wneud.

Rhoddodd BWJ drosolwg o ganllawiau LiC yn egluro mai pwrpas y Ddeddf yw sicrhau bod Teithio Llesol yn opsiwn ar gyfer teithiau byr, p'un a yw hynny'n deithio i'r ysgol, y gwaith neu'r siopau. Eglurodd BWJ fod gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau Teithio Llesol ac ychwanegu at y mapiau bob blwyddyn a gweithredu gwelliannau Teithio Llesol ar lawr gwlad bob blwyddyn. Soniodd BWJ mai diffiniad Teithio Llesol yw "defnyddio dull amgen i deithio modur i'r gwaith, addysg, iechyd a hamdden". Nid yw hyn yn cynnwys llwybrau beicio mynydd a grëwyd yn arbennig, er enghraifft.

Aeth PS ymlaen i ddangos cyfres o enghreifftiau o ddarpariaeth mynediad presennol ac awgrymu sut y gallent, neu y dylent, gael eu gwella. Soniodd PS sut y gall rhwystrau presennol effeithio ar rai, ond nid rhai eraill, ac eglurodd fod Teithio Llesol yn ceisio edrych ar y dull "gwaethaf" o fynediad a gwella i'w gwneud yn hygyrch i bob defnyddiwr. Ychwanegodd BWJ fod canllawiau dylunio yn cyd-fynd â'r Ddeddf i annog arfer orau ac mae'r canllawiau yn cael eu defnyddio gan gydweithwyr sy'n gweithredu cynlluniau ar lawr gwlad.

Holodd Hilary Davies (HD) am enghraifft a roddwyd ym Mhenmaenmawr. Dywedodd PS ei fod yn ceisio gwella'r ddarpariaeth mynediad ar ffordd trwy Benmaenmawr. Soniodd HD ei bod yn byw ger ysgol lle nad oes palmant a gofynnodd a allai hyn fanteisio.

Dywedodd BWJ i bawb edrych ar y canllawiau dylunio ac ymateb i'r ymgynghoriadau ac ychwanegu at yr INM.

Yna gall yr All wneud cais am gyllid i sicrhau'r gwelliannau hyn, ond os nad yw materion yn cael eu hychwanegu at y map, ni allant gael eu hariannu am 3 blynedd.

Gofynnodd HD sut mae materion yn cael eu hychwanegu at yr INM - dywedodd BWJ fod hyn drwy wybodaeth swyddog yr All ac o ganlyniad i'r ymgynghoriad parhaus. Ychwanegodd PS fod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 31/03/2017 yng Nghonwy.

Gofynnodd HC a fyddai unrhyw ymdrech yn cael ei wneud i addysgu modurwyr ac ychwanegodd fod gyrwyr i'w gweld yn fwy ymwybodol o feicwyr mewn gwledydd Ewropeaidd lle mae rhagor o feicwyr ac isadeiledd gwell. Nid oedd PS yn sicr ac nid oedd yn ymwybodol a oedd yn ei gylch gwaith ar hyn o bryd, ond soniodd fod llawer o astudiaethau yn awgrymu gall lefelau uwch o feicio arwain at ganlyniadau academaidd gwell. Soniodd PS mai gordewdra yw un o'r problemau mwyaf i'r GIG bellach a gallai Teithio Llesol effeithio'n gadarnhaol arno.

Awgrymodd KC gellid ei gwneud yn anghyfreithlon i barcio mewn llwybrau beicio. Soniodd BWJ gellir cyhoeddi Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a chyfeiriodd at enghraifft ger Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

Gofynnodd AW a oedd mapiau Teithio Llesol wedi'u rhannu'n barthau. Mae rhai ardaloedd blaenoriaeth a rhaid i ardal fod â phoblogaeth o fwy na 2,000, ond bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dod â chymunedau llai yn ôl i mewn. Aeth BWJ ymlaen i ychwanegu fod CBSC a CSDd yn croesawu sylwadau gan bob cymuned, nid yw maint yn fater oherwydd gellir edrych ar gynlluniau eraill.

Gofynnodd HM a oedd unrhyw hyblygrwydd gyda Chorwen a oedd wedi'i adael allan o'r INM. Dywedodd BWJ y bydd cyfleoedd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnodd HD a oes ffordd o wybod a yw materion eisoes wedi'u cofnodi. Cânt eu nodi yn yr ERM. Gofynnodd JB am eglurhad o'r hyn gellir ei ariannu. Nid yw dodrefn stryd yn gymwys, ond mae gostegu traffig yn. Caiff cynlluniau mwy eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fel arfer a gall yr Awdurdod Lleol edrych ar gynlluniau llai. Ailadroddodd PS y dylid adrodd am unrhyw bryderon. Gofynnodd MH a fyddai hyn yn effeithio ar Symiau Gohiriedig. Ni fydd yn effeithio arnynt ond mae'r awdurdodau yn ceisio gweithio gyda'r datblygiadau newydd ar gyfer mynediad gwell ac i gael cyllid.

Ychwanegodd CM gallai fod angen adolygu'r diffiniad o e-feic ac awgrymodd HC'r diffiniad Pedalec – cymorth trydanol ond mae angen i chi bedlo.

Gwnaeth AW godi ardaloedd ymylol gwledig, ac mae llawer ohonynt yn CSDd a CBSC, ychwanegodd PS fod y canllawiau wedi'u hysgrifennu yng Nghaerdydd, ond mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer gwneud newidiadau i adlewyrchu gogledd Cymru yn well. Ychwanegodd MH fod y cynllun presennol yn rhy drefol. Dywedodd PS eu bod yn darparu adborth i LiC yn rheolaidd a'u bod yn edrych ar opsiynau dylunio ar gyfer Gogledd Cymru. Maent hefyd yn gweithio gyda Sustrans o amgylch hyfforddiant gan ei bod yn gyffredin i blant golli diddordeb mewn beicio pan fyddant tua 18 wrth ddechrau gweithio. Mae gwaith presennol yn ceisio darparu llwybrau i bobl feicio i'r gwaith a cheisio cadw pobl yn beicio gydol eu hoes.

Ychwanegodd TP nad yw marchogaeth yn cael ei gyfrif fel dull teithio llesol o gludiant a chwestiynodd y defnydd o lwybrau beicio gan geffylau. Rhoddodd TP enghraifft o Sarn Lane ym Modelwyddan, sydd â llwybr beicio, ond nid yw'r ffordd yn ddiogel ar gyfer marchogaeth i lwybrau ceffylau cyswllt ac mae TP wedi defnyddio'r llwybr beicio ar gyfer diogelwch, gan ildio i feicwyr a cherddwyr. Gofynnodd TP a allai ceffylau a marchogwyr fod yn ystyriaeth ar gyfer gwelliannau'r dyfodol.

Gofynnodd AW a yw gwahardd ceffylau ar lwybrau beicio yn rheoliad neu gyfraith oherwydd nid yw'n sicr a yw marchogaeth ceffyl ar lwybr beicio yn drosedd.

Gofynnodd HD am farn Teithio Llesol am arwyddion fel End of Cycle Track a Cyclists Dismount. Defnyddir End of Cycle Track dan reoliadau penodol a defnyddir Cyclists Dismount lle na ellir ehangu llwybrau a byddai End of route/please re-join the carriageway yn fwy addas. Ychwanegodd PS y bydd arwyddion ar lawr gwlad yn cymryd amser i ddal i fyny gyda chanllawiau - gall oedolion ddefnyddio eu synnwyr cyffredin eu hunain pan fo'n briodol aros neu ddod i ffwrdd o'u beiciau.

I ddod o hyd i wybodaeth ac ymgynghoriadau Teithio Llesol:  
CSDd – gwefan > ymgynghoriadau > Teithio Llesol  
[walkingandcycling@denbighshire.gov.uk](mailto:walkingandcycling@denbighshire.gov.uk)

CBSC – chwilio am Teithio Llesol ar y wefan  
[teithiollesol@conwy.gov.uk](mailto:teithiollesol@conwy.gov.uk)

<b>CG 5</b>	HA i ddsbarthu manylion i aelodau	<b>Wedi'i gwblhau</b>
-------------	-----------------------------------	-----------------------

### 3. Diweddariad Adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Dyweddodd VC ei bod wrthi'n gweithio ar amserlen ar gyfer CBSC. Mae'r drafft i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2018. Bydd VC yn rhoi gwybod i HA pan fydd yr amserlen wedi'i chyhoeddi er mwyn iddi ei ddsbarthu. Dywedodd AW fod cynnydd yn debyg ar gyfer CSDd er eu bod ychydig y tu ôl i CBSC gan mai Sir Ddinbych oedd yr awdurdod olaf i gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Defnyddir y 12 mis nesaf i edrych ar beth sydd wedi'i gyflawni drwy gyllid Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a beth yw'r dyheadau ar gyfer y rhwydwaith. Ychwanegodd AW fod pob awdurdod yng Nghymru wedi bod yn dibynnu ar gyllid Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, rhai ar gyfer ariannu staff.

Ychwanegodd HM fod yr arolwg o'r rhwydwaith gan CSDd wedi'i dynnu o syniad yng nghyfarfod blaenorol y Fforwm Mynediad Lleol lle mae SW yn defnyddio ei graddedigion i gynnal yr arolwg. Mae hyn yn dangos ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd eisoes.

Gofynnodd HD faint o grant oedd wedi'i ddyrannu. Cafodd CSDd £40,022 yn 2016/17 a chafodd CBSC tua £47,000. Cynhelir cyfrifiad o amgylch poblogaeth a rhwydwaith hawliau tramwy i benderfynu ar y swm a roddir. O'i gymharu, mae Caerdydd yn cael £30,000 oherwydd er bod ganddo rwydwaith bach, mae'r boblogaeth fawr yn helpu.

Gofynnodd MG a oedd yn briodol i aelodau gynghori ar brosiectau. Dywedodd AW fod y rhan fwyaf o gyllideb CSDd yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau mwy fel y gwaith giât mochyn yn yr AHNE. Ychwanegodd fod angen cynghorau cymuned arnom sy'n barod, gyda'r prosiect Milltiroedd Cymunedol, ac eisoes mae CSDd yn gweithio drwy rhestr aros o gymunedau parod sy'n aros i gyllid fod ar gael. Dywedodd AW fod £10,000 yn cael ei ddyrannu i Milltiroedd Cymunedol, £8-10,000 yn cael ei ddyrannu i lwybrau ceffylau oherwydd dim ond 16% o'r rhwydwaith sydd ar gael i geffylau a beiciau, ond dim ond 50% o'r rhwydwaith hwn sydd ar gael, sy'n agored ac mae modd ei ddefnyddio. Ni all CSDd gyfiawnhau gwario'r grant cyfan ar lwybrau troed, rhaid sicrhau cydbwysedd gyda phwysau gan ddefnyddwyr.

Ychwanegodd SW fod gan CBSC nifer o syniadau eisoes am brosiectau ar y silff o gwynion a gwaith cynnal a chadw ac mae hyn yn fwy na'r dyraniad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, fodd bynnag mae'r prosiectau yn barod i fynd os bydd cyllid arall yn dod ar gael.

Gofynnodd MG am greu is-grŵp Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel mae Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri wedi'i wneud. Dywedodd GB y dylai is-grwpiau reoli eu hunain ac adrodd yn ôl. Gofynnodd MG hefyd am yr adroddiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dywedodd AW ei fod yn gweithio ar un CSDd ar hyn o bryd a gall ddod ag ef i gyfarfod yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, bydd AW yn edrych yn ôl ar y 10 mlynedd diwethaf a chreu adroddiad am y cyflawniadau yn ogystal ag edrych ymlaen at ddyfodol y rhwydwaith.

#### **4. Diweddariad ar yr Adolygiad Mynediad Agored**

Rhoddodd Paul Mitchell (PM) ddiweddariad ar yr Adolygiad Mynediad Agored. Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) oedd â'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu mapiau mynediad agored a oedd yn dangos gwlad agored (mynydd, rhos, rhostir, twyndir) a thir comin (o'r gofrestr gyffredin). Roedd gofyn i CCGC adolygu'r mapiau bob deng mlynedd. Dechreuodd yr adolygiad yng ngogledd ddwyrain Cymru yn 2012 oherwydd mai'r Berwyn oedd yr ardal gyntaf i gael mynediad agored dynodedig. Cyhoeddwyd mapiau drafft yn dangos diwygiadau arfaethedig, ardaloedd i'w dadgofrestru oherwydd y newidiadau ar y tir os nad oedd tir yn cynnwys cynefinoedd dynodedig bellach ac ardaloedd i'w cofrestru os oes cynefin wedi ymddangos sy'n dod dan y dynodiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy'r Fforymau Mynediad Lleol a gwnaed ymgynghoriad ac apeliadau ehangach a gafodd eu hymchwilio. Yn ardal CSDd gwnaed un apêl gan dirfeddiannwr, na chafodd ei dilyn. Yn Nwyrain CBSC ni wnaed unrhyw apeliadau yn erbyn y map dros dro. Ym Mharc Cenedlaethol Eryri gwnaed 10 apêl. Collodd CSDd 5.27 hectar o dir agored ar y map terfynol newydd yn Llangwylan.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod y mapiau newydd ar gael yn eu swyddfa ac ar-lein ar ddechrau mis Ebrill 2017.

Mae CSDd yn cadw data ond nid yw AW yn sicr pa mor hen ydyw. Dywedodd PW fod y map terfynol wedi'i gynhyrchu yn 2014. Bydd AW yn siarad gydag Alun Price i wirio bod gan CSDd y data mwyaf diweddar. Nid yw VC yn sicr pa ddata sydd gan CBSC.

Gofynnodd MG a allai Cyfoeth Naturiol Cymru roi pwysau ar yr Arolwg Ordnans i ddiweddarau'r mapiau ar-lein 1:25,000 cyn gynted ag sy'n bosibl a'r mapiau papur yn y rownd nesaf o ailargraffu.

#### **5. Cerdded Conwy**

Rhoddodd SW a Jutta Orenz-Kubis drosolwg o Cerdded Conwy, prosiect cydweithio gyda'r Cyngor Tref a oedd yn gweithio gyda chymunedau i gael gwybodaeth am lwybrau sydd ar gael yn lleol. Cynhyrchwyd pecynnau taflenni i hybu'r llwybrau sydd ar gael. Cynhaliwyd hyrwyddo drwy deithiau cerdded tywysedig. Roedd y dull hwn yn boblogaidd ac yn yr ail flwyddyn lluniwyd rhaglen o deithiau cerdded. Drwy ofyn am adborth gan gerddwyr bob blwyddyn

mae'n helpu i wella'r cynllun. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae rhagor o arian ar gael bob blwyddyn ar gyfer yr ŵyl gerdded.

Mewn dim ond ychydig o flynyddoedd mae Cerdded Conwy wedi tyfu o 6 thaith gerdded yr wythnos i 47 taith gerdded yr wythnos ym mis Gorffennaf ar gyfer yr ŵyl. Oherwydd galw, trefnwyd rhagor o deithiau cerdded ac mae Cerdded Conwy yn gweithio'n agos gyda thîm hawliau tramwy CBSC gan ei fod yn dipyn o waith i ddod â phopeth at ei gilydd. Roedd toriadau'n wynebu'r prosiect, a llai o adnoddau, fodd bynnag mae Chwaraeon Cymru wedi gallu darparu cyllid ar gyfer Hyfforddiant Arweinydd Cerdded.

Roedd Jen Towill yn cefnogi'r dull hwn, gan gynnig hyfforddiant i arweinydd o'r gymuned i arwain teithiau cerdded, cynhyrchu asesiadau risg ac yswiriant. Yn 2012 sefydlwyd y grŵp a darparwyd rhaglen gerdded drwy'r flwyddyn, nid dim ond un mis y flwyddyn.

Dywedodd Jutta na fyddai'r gwaith yn bosibl heb gefnogaeth Chwaraeon Cymru a CBSC.

Caiff tri math o arweinydd eu hyfforddi

Bryn a Rhos

Arfordir a Thir isel

Mynydd

Rhoddir hyfforddiant i aelodau newydd mewn mordwyaeth a chymorth cyntaf a darperir lloches grŵp, pecyn cymorth cyntaf a gwisg. Mae Cerdded Conwy yn gallu cefnogi grwpiau eraill fel Gŵyl Gerdded Trefriw. Mae ganddynt hefyd wefan a thudalen Facebook i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl.

Gofynnodd GB a oes gan gynghorau cymuned gopiâu o fapiau swyddogol. Rhoddwyd disg i bob cymuned CBSC yn cynnwys y map cyfun yn 2013. Roedd Caroline yn arfer darparu map A1 ond mae'n ddiigidol bellach. Y Cerddwyr yw'r prif grŵp defnyddwyr. Ychwanegodd AW fod gan bob cyngor cymuned hawl i gael copi ac mae'r holl wybodaeth map swyddogol ar gael ar-lein. Mae AW yn edrych ar ddarparu map wal i gymuned Llandyrnog i restru pob rhif llwybr a'i gwneud yn haws i adrodd am broblemau. Gallai hyn gael ei ymestyn ar draws y sir.

Gofynnodd HS a oedd tâl am Cerdded Conwy Walks. Dywedodd SW fod cyfraniad o £2 y pen yn cael ei awgrymu ac mae'r arian yn mynd i Cerdded Conwy. Mae modd archebu lle ar deithiau cerdded felly gellir gofyn cwestiynau at ddibenion yswiriant.

Gofynnodd MH am gyfyngiadau o ran niferoedd. Mae teithiau mynydd yn 10:1 a theithiau cymedrol yn 20:1. Mae'r niferoedd hyn wedi'u newid drwy adborth a gafwyd o deithiau blaenorol. Mae'r teithiau wedi'u trefnu a lle bo'n bosibl yn cefnogi busnesau lleol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan yn lleol i Conwy a gogledd Cymru ac mae rhai pobl yn teithio o Lerpwl. Mae hyrwyddo yn digwydd drwy'r wefan a rhai cylchgronau cerdded.

## **6. Gŵyl Gerdded Trefriw**

Ar ôl cinio yn hytrach nag ymweliad safle rhoddodd Gill a Tony o ŵyl Gerdded Trefriw gyflwyniad am yr ŵyl a'i gwefan. Mae'r ŵyl yn rhedeg o 19 – 21 Mai 2017 ac mae wedi datblygu gyda chefnogaeth gan Cerdded Conwy a CBSC.

Mae arian wedi helpu i gefnogi darparu'r wyl gerdded, cynllun croeso i gerddwyr, pecynnau taflenni Trefriw Trails (8 map llwybrau dwyieithog i gyd ar hawl tramwy) a Ras y Felin, ras 12 ½ milltir sydd wedi'i ychwanegu at Bencampwriaethau Agored Cymru yn 2017. I gyd-fynd â Blwyddyn Chwedlau bydd gŵyl eleni yn cynnwys y storïwr Fiona Collins a bardd y frenhines Martin Davies.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau 8 Mehefin, Llandegla 5:30pm